



Angela Loftus  
Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai  
Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd  
Cyngor Sir Ddinbych  
Blwch SP 62  
Rhuthun  
LL15 9AZ

23 Awst 2019

Annwyl Angela,

**Cyngor Sir Ddinbych – Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir: Ymateb Llywodraeth Cymru**

Diolch ichi am ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) Cyngor Sir Ddinbych – Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir. Mae'n hanfodol bod gan yr awdurdod CDLI cyfredol er mwyn rhoi sicrwydd i gymunedau lleol a buddsoddwyr.

Heb amharu ar bwerau'r Gweinidogion, mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLIau) i leihau'r risg o gyflwyno cynlluniau nad ydynt yn gadarn drwy wneud sylwadau priodol mor gynnar â phosibl yn ystod camau paratoi'r cynllun. Mae Llywodraeth Cymru yn chwilio am dystiolaeth glir bod y profion o gadernid (a nodir yn Argraffiad 2 y 'Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol') yn cael eu hystyried.

Mae Argraffiad 10 Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn sefydlu mai'r blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol allweddol yw'r angen i ddarparu lleoedd cynaliadwy o ansawdd uchel drwy greu lleoedd. Mae PCC hefyd yn gofyn am agwedd ehangach, gynaliadwy sy'n ceisio datrys problemau, ac sy'n canolbwyntio ar integreiddio a mynd i'r afael â nifer o faterion er mwyn cyflawni canlyniadau cynllunio effeithiol. Mae hyn yn golygu symud oddi wrth y dull gweithredu traddodiadol o ystyried meysydd polisi ar eu pen eu hunain, ac yn cefnogi polisïau sy'n fwy seiliedig ar leoedd. Rhaid hefyd dangos y saith nod llesiant, ynghyd â'r pum ffordd o weithio sy'n annog pawb i feddwl mewn ffordd integredig a chydweithredol am y broses o lunio polisïau ac ystyried tueddiadau hirdymor. Caiff y broses o weithredu meysydd polisi craidd yn PCC, fel sicrhau strategaeth ofodol gynaliadwy, tai a lefelau twf economaidd, cyflwyno seilwaith a chreu lleoedd, ei disgrifio'n fanylach yn Argraffiad 3 o'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu. Cynhelir ymgynghoriad ar y Llawlyfr ar hyn o bryd a chaiff ei gyhoeddi ym mis Hydref 2019. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau gadw at elfennau craidd y Llawlyfr, yn enwedig y canllawiau a nodir ym Mhennod 5: Paratoi CDLI

– Materion Craidd a'r 'rhestr wirio dileu risg' wrth baratoi sail dystiolaeth y cynllun, ac i'w hystyried yng nghynnwys a diwyg y cynllun ei hun.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) ar gyfer ymgynghoriad. Disgwylir i'r FfDC gael ei fabwysiadu cyn i CDLI Sir Ddinbych gael ei fabwysiadu. **Bydd yn ofynnol i CDLI Sir Ddinbych gydymffurfio'n fras â'r FfDC pan gaiff ei fabwysiadu. Dylai'r Cyngor sicrhau ei hun bod modd cyflawni cydymffurfiaeth gyffredinol.**

Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar ddatblygiadau yn Safle Strategol Bodelwyddan ac aneddiadau â gwasanaethau gyda chynnydd cyfyngedig yn yr aneddiadau heb wasanaethau. **Heb dystiolaeth allweddol i gyfiawnhau 'bwrw ymlaen' â'r Safle Strategol o'r CDLI mabwysiedig ac yn absenoldeb unrhyw gynnydd ar y safle strategol o ganlyniad i ofynion seilwaith strategol, mae gan Lywodraeth Cymru bryderon difrifol am 'gadernid' strategaeth y cynllun.**

Fel cynllun sy'n cymryd lle un arall, mae'n siomedig gweld mai cyfyngedig yw'r dogfennau cefndir a'r papurau pwnc ar faterion allweddol gan gynnwys darparu tai, dosbarthiad gofodol y cyflenwad tai ac elfennau, astudiaeth hyfywedd, Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ac astudiaeth o ynni adnewyddadwy. Mae sail dystiolaeth gadarn yn allweddol er mwyn deall y Strategaeth a Ffeirir yn llawn. Er bod yr ymgynghoriad yn sôn am rai astudiaethau drafft a gwaith a wneir ar gyfer y cynllun Adneuo, mae'n anodd darparu sylwadau ystyrion ar rai meysydd pwnc ar yr adeg hon gan nad yw llawer o'r astudiaethau wedi cael eu cwblhau eto. Gan ystyried bod cynllun mabwysiedig eisoes yn bodoli, cafwyd cyfle i ddefnyddio cam y Strategaeth a Ffeirir i ymgynghori ar y polisiâu hynny y disgwylir na fyddant yn newid, yn ogystal â'r rhai y bydd angen eu diwygio.

Bydd yn hanfodol dangos bod y strategaeth yn cael ei chyflawni a bod y dyraniadau yn cael eu gwneud, a dylai tystiolaeth eich Awdurdod yn y cynllun Adneuo gefnogi hyn. Nodir rhagor o sylwadau yn yr atodiad i'r llythyr hwn gyda chanllawiau ychwanegol yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Argraffiad 3).

Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, y profion o gadernid a PCC oll yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio rhwng awdurdodau cyfagos er mwyn sicrhau'r canlyniad cynllunio gorau posibl ar gyfer cymunedau. Mae gan y Cyngor gydberthnasau cryf â'r awdurdodau cyfagos, yn enwedig Conwy. Mae'n rhaid i'r cynllun ddangos sut mae'r cydberthnasau hyn wedi dylanwadu ar y strategaeth ac, ar gamau diweddarach, bolisiau a chynigion a dyraniadau safle y cynllun. Mae graddfa a lleoliad y twf mewn cyflogaeth ar hyd coridor yr A55 yn fater penodol yn hyn o beth.

Mae ein sylwadau hefyd yn cynnwys materion manylach yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Gyda'i gilydd, mae ein sylwadau'n tanlinellu nifer o faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw, yn ein barn ni, er mwyn ystyried bod y cynllun yn 'gadarn'. Rydym wedi nodi lle nad yw tystiolaeth o gadernid yn amlwg ar unwaith a lle dylid gwella neu atgyfnerthu'r sail dystiolaeth wrth i'r cynllun fynd rhagddo. Ymhlith y meysydd allweddol mae'r canlynol:

- Safle Strategol Bodelwyddan
- Cyflawni a Gweithredu
- Twf cyflogaeth
- Tai fforddiadwy
- Y Ddarpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr
- Y Gymraeg
- Ynni adnewyddadwy
- Mwynau

Argymhellwn yn gryf y dylid ymdrin â'r materion hyn er mwyn rhoi'r cyfle gorau i'ch CDLI gael ei ystyried yn 'gadarn' ar y cam Adneuo.

Fel bob amser, byddem yn eich annog i gael eich cyngor cyfreithiol eich hun er mwyn sicrhau eich bod wedi bodloni'r holl ofynion gweithdrefnol, gan gynnwys Arfarniad o Gynaliadwyedd, Aseiad Amgylcheddol Strategol ac Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd gan mai eich Awdurdod chi sy'n gyfrifol am y materion hyn. Dylid cyflawni gofyniad i Asesu'r Effaith ar Iechyd sy'n deillio o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, os bydd yn briodol, er mwyn asesu effaith debygol y cynllun datblygu arfaethedig ar iechyd, lles meddyliol ac anghydraddoldeb.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau yr arweinig gwaith datblygu gan gynllun yng Nghymru. Rwy'n gobeithio y bydd y sylwadau hyn yn eich cynorthwyo wrth baratoi eich Cynllun Adneuo ac yn sicrhau yr ystyrir bod eich CDLI yn 'gadarn' ac y caiff ei fabwysiadu yn dilyn archwiliad annibynnol. Mae fy nghydweithwyr yn edrych ymlaen at gyfarfod â chi a'ch tîm i drafod materion sy'n codi o'r ymateb ffurfiol hwn.

Yn gywir,



**Mark Newey**  
**Pennaeth y Gangen Gynlluniau**  
**Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**

## **Atodiad i Lythyr Llywodraeth Cymru 23 Awst 2019 mewn ymateb i CDLI Newydd Cyngor Sir Ddinbych – Strategaeth a Ffefrir**

### **Lefelau Twf: Cartrefi a Swyddi**

Mae'r ACLI wedi profi nifer o senarios sy'n seiliedig ar faterion demograffig, economaidd a thai er mwyn llywio'r strategaeth ar gyfer twf. Mae'r 'Strategaeth a Ffefrir' yn nodi gofyniad tai o 3,275 o gartrefi (218 y flwyddyn) ynghyd â 15% o hyblygrwydd gan arwain at ddarpariaeth yn y cynllun o 3,775 o unedau a 1,500 o swyddi ar 47.60ha o dir cyflogaeth dros gyfnod y cynllun (2018-2033).

Mae'r lefel hon o dwf tua 1,926 o unedau'n uwch nag amcanestyniad 2014 Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor wedi dod i'r casgliad y byddai amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn arwain at lefel 'rhy isel' o dwf i ategu dyheadau'r CDLI ac na fyddent yn cyflawni o ran y materion allweddol y mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Mae lefel y cynnydd mewn tai yn cyd-fynd yn fras â'r gyfradd adeiladu dros y 15 mlynedd diwethaf (sef 220 y flwyddyn) ac mae'n uwch na'r gyfradd adeiladu dros y 10 mlynedd diwethaf (sef 170 y flwyddyn). Mae'r gofyniad tai 4,225 o unedau'n llai na gofyniad y CDLI mabwysiedig presennol, sef 7,500 o gartrefi.

Cyfrifir niferoedd y boblogaeth, tai ac aneddiadau yn y strategaeth ar gyfer twf 'a ffefrir' drwy ddefnyddio methodoleg iteru o chwith sy'n sy'n addasu elfennau o newid yn y boblogaeth (yn bennaf lefelau ymfudo) i sicrhau bod twf swyddi'n cyfateb i dwf y boblogaeth. Twf swyddi (1,500) yw prif sbardun newid yn y boblogaeth. Mae lefel y twf arfaethedig yn ystyried y sbardunau economaidd rhanbarthol a nodwyd ym Margen Twf y Gogledd gyda safleoedd cyflogaeth strategol ym Modelwyddan a Pharc Busnes Llanelwy. Mae'r opsiwn twf a ffefrir hefyd yn cynnig yr amodau i ddenu a chadw cenedlaethau iau er mwyn cefnogi cyfraddau gweithgarwch economaidd a darparu tai addas a fforddiadwy.

### **Strategaeth Ofodol a Dosbarthiad Twf: Ffocws ar Safle Strategol Bodolwyddan**

Mae'r strategaeth a ffefrir yn cyfeirio'r rhan fwyaf o'r twf newydd i un safle defnydd cymysg ym Modelwyddan. Mae'r safle ym Modelwyddan yn safle strategol allweddol yn y CDLI mabwysiedig ar gyfer 1,715 o anheddau, 26ha o dir cyflogaeth a darpariaeth trafniadaeth a seilwaith gysylltiedig (Polisi BSC 5). Nid yw'r cynllun yn cynnwys unrhyw wybodaeth am raddfa'r defnyddiau a gynigir na gwybodaeth benodol am gamau. Nid yw ychwaith yn glir sut y darperir y 'seilwaith sylweddol' gofynnol i hwyluso'r safle os caiff graddfa'r datblygiad ei lleihau. Mae tystiolaeth ddiweddar yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2018 y Cyngor yn nodi na wnaed unrhyw waith datblygu ar y safle yn y chwe blynedd ers i'r CDLI presennol gael ei fabwysiadu yn 2013 ac y bydd y caniatâd cynllunio amlinellol (a roddwyd ym mis Mawrth 2016) yn mynd yn ddi-rym ymhen dim ond dwy flynedd, yn 2021. Heb dystiolaeth ategol i gyfiawnhau newid sylweddol yn yr amgylchiadau er mwyn esbonio bwrw ymlaen â'r safle strategol, a ddylai gynnwys fframweithiau sgematig ac uwchgynlluniau, gwybodaeth am gyflawni a champau, asesiadau hyfywedd gan gynnwys costau seilwaith a Datganiadau Tir Cyffredin â datblygwyr, **mae gan Lywodraeth Cymru bryderon difrifol am ddarparu Safle Strategol Bodolwyddan ac, o ganlyniad i hynny, am 'gadernid' strategaeth y cynllun, gan gynnwys y goblygiadau o ran darpariaeth, graddfa a lleoliad cartrefi a swyddi.**

Mae'r strategaeth a ffefrir hefyd yn ceisio cyfeirio datblygiadau i aneddiadau â gwasanaethau (prif ganolfannau, canolfannau lleol a phentrefi) ac yn cefnogi twf cyfyngedig mewn aneddiadau â gwasanaethau drwy safleoedd mewnlenwi a safleoedd bach o fewn ffiniau aneddiadau. Ni cheir unrhyw wybodaeth yn y cynllun sy'n nodi dosbarthiad gofodol y tai a'i elfennau. Fel y cyfryw, mae'n anodd penderfynu a **yw'r strategaeth yn briodol, yn cydymffurfio ag egwyddorion**

## **Ileoliadol allweddol PCC, yn hyrwyddo patrymau teithio cynaliadwy yn benodol, ac a yw'n ymarferol.**

Er mwyn deall graddau'r twf hwn, dylai graddfa'r tai ac elfennau'r cyflenwad ym mhob hierarchaeth aneddiadau gael eu nodi yn y cynllun Adneuo drwy gwblhau Tabl 16 y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) drafft.

### **Cyflawni a Gweithredu**

Bydd cyflawni'r strategaeth hon yn ddibynnol ar allu'r awdurdod i ddyrannu safleoedd sy'n hyfyw ac yn ymarferol ac sydd wedi'u lleoli yn unol â'r strategaeth ofodol a'r hierarchaeth aneddiadau. Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) drafft yn nodi'r materion allweddol y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw (ym Mhennod 5) a dylai'r Cyngor sicrhau bod y cynllun Adneuo yn cynnwys yr holl agweddau perthnasol, gan roi sylw arbennig i'r rhestr wirio dileu risg. Dylid ond 'bwrw ymlaen' â dyraniadau sydd eisoes yn bodoli mewn amgylchiadau eithriadol lle ceir tystiolaeth glir a chadarn y gellir darparu'r safleoedd. Er mwyn dangos sut y caiff safleoedd eu darparu a'u rhoi ar waith, **mae'n rhaid i'r cynllun Adneuo gael ei ategu gan waith hyfywedd, cynllun seilwaith a thaflywyr tai cadarn i'w cynnwys yn atodiad y cynllun.** Mae'n rhaid i'r cynllun Adneuo fynd i'r afael â'r canlynol:

- Gyda ffocws ar waith datblygu yn Safle Strategol Bodelwyddan, mae'n rhaid i'r awdurdod ddangos bod y safle strategol yn ariannol hyfyw ac yn ymarferol dros gyfnod y cynllun er mwyn iddo gael ei ystyried yn 'gadarn'. Mae'n rhaid i'r safle strategol gael ei gefnogi gan dystiolaeth gan gynnwys fframweithiau sgematig sy'n cynnwys gwybodaeth am hyfywedd, costau, gofynion seilwaith allweddol, Cynllun Seilwaith ac atodiad ategol i'r CDLI a thystiolaeth o ymrwymiad gan ddatblygwyr drwy Ddatganiadau Tir Cyffredin.
- Rhoi tystiolaeth o'r ffordd y darperir yr holl safleoedd dyranedig, gan gynnwys disgrifiad manwl o amseroedd cyflenwi, camau, costau a gofynion seilwaith, gan gynnwys paratoi Datganiadau Tir Cyffredin lle bo angen, er mwyn dangos y caiff y cynllun ei gyflawni.
- Paratoi astudiaeth hyfywedd lefel uchel i lywio targedau tai fforddiadwy, a gwaith hyfywedd penodol i safleoedd lle bo'n briodol.
- Paratoi taflywyr tai wedi'i ategu gan ddadansoddiad a dealltwriaeth o amseroedd datblygu, y cysylltiad rhwng y safleoedd, cyfyngiadau posibl, costau, gofynion seilwaith, dwysedd a ffrydiau ariannu, ynghyd â thybjaethau cadarn ar hap-safleoedd.
- Gyda chyfyngiadau ar gyfuno ar gytundebau A106, dylai'r awdurdod sicrhau ei fod yn gallu ariannu unrhyw ofynion seilwaith angenrheidiol.

Ac eithrio'r Safle Strategol, nid yw'r cynllun yn crybwyll y dyraniadau tai a chyflogaeth sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r strategaeth. Ni cheir unrhyw arwydd na dadansoddiad o'r Safleoedd Ymgeisiol 'allweddol' na'r dyraniadau sydd eisoes yn bodoli a'u perthnasedd yn y dyfodol. Ni cheir ychwaith asesiad o'r banc tir, yr hap-safleoedd a'r safleoedd bach presennol, a fydd yn ategu cyflenwad y dyfodol.

### **Cyflogaeth a Thwf Economaidd**

Profodd yr Adolygiad o Dir Cyflogaeth ddau ddull o ragweld twf cyflogaeth gan gynnwys tai a gwblhawyd yn y gorffennol, a rhagweld y galw am lafur. Mae'r rhagolwg sy'n seiliedig ar swyddi yn awgrymu bod gan y Cyngor orgyflenwad o dir cyflogaeth ond mae hyn yn groes i'r asesiad o'r farchnad a'r adolygiad o dueddiadau hanesyddol, sy'n nodi bod y rhagolygon o'r galw am lafur yn tanamcangyfrif y gofynion o ran tir cyflogaeth. Felly, yr opsiwn a ffefrir yw allosod tai a gwblhawyd yn y byrdymor, sy'n creu gofyniad am 47.60ha o dir cyflogaeth (gan gynnwys 5 mlynedd o hyblygrwydd ar 11.90ha), gan gynnwys y safleoedd cyflogaeth rhanbarthol sydd wedi cael caniatâd ym Modelwyddan a Pharc Busnes Llanelwy.

Dylai'r Cynllun Adneuo wneud y canlynol:

- Egluro'r 68ha o dir cyflogaeth a ddarparwyd gyda chanfyddiadau yn yr Adolygiad o Dir Cyflogaeth;
- Nodi dyraniadau cyflogaeth i ddiwallu'r angen rhanbarthol a lleol gan egluro eu graddfa (ha) a'u defnydd Dosbarth B gydag esboniad am eu dosbarthiad gofodol a'r ffordd y cânt eu darparu;
- Ystyried polisi diogelu sy'n nodi ac yn rhestru unrhyw safleoedd cyflogaeth allweddol sydd eisoes yn bodoli i'w cadw at ddefnydd cyflogaeth;
- Cynnwys polisi i gefnogi defnyddiau amgen ar safleoedd cyflogaeth nad ydynt wedi'u diogelu;
- Cynnwys polisiâu sy'n seiliedig ar feini prawf er mwyn asesu ceisiadau cyflogaeth mewn ardaloedd trefol a gwledig a rhoi cymorth i'r economi wledig drwy ehangu busnesau sydd eisoes yn bodoli, hunangyflogaeth a microfusnesau (TAN 6);
- Nodi'r safleoedd cyflogaeth sy'n addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff.

### **Tai Fforddiadwy a'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA)**

Daeth LHMA yr awdurdod (mis Gorffennaf 2019) i'r casgliad fod angen cyfanswm o 2,325 o gartrefi fforddiadwy dros gyfnod y cynllun (2018-2033) sy'n cyfateb i 155 o unedau y flwyddyn. Mae'r LHMA yn nodi bod y mwyafrif o'r angen hwn ar gyfer eiddo rhent cymdeithasol ag un neu ddwy ystafell wely (68%) gyda 32% o angen canolradd.

Mae'r cynllun wedi ystyried nifer o opsiynau twf a gofodol, ond ni cheir unrhyw drafodaeth na chasgliad ynghylch y ffordd y mae'r opsiynau hyn wedi cael eu llywio gan ganfyddiadau yn yr LHMA. Dylai'r cynllun Adneuo egluro **sut y mae lefel yr angen am dai fforddiadwy yn yr LHMA wedi dylanwadu ar raddfa a lleoliad y twf**. Mae'n hanfodol bod yr awdurdod yn dangos sut mae wedi darparu cymaint o dai fforddiadwy â phosibl er mwyn ymdrin â'r Materion a'r Amcanion Allweddol yn y cynllun.

Nid oes unrhyw asesiad bras o hyfywedd tai fforddiadwy wedi cael ei gyflwyno i ategu'r Strategaeth a Ffefrir. **Felly, nid yw'n glir sut y mae'r lefelau hyfywedd wedi llywio dosbarthiad gofodol y cynllun, graddfa safleoedd tai, gan gynnwys tir ym Modelwyddan a thybiaethau o ran dwysedd**. Dylai'r Cynllun Adneuo wneud y canlynol:

- Nodi sut y caiff targed y cynllun o 750 o unedau ei gyflawni gan ddefnyddio dulliau polisi a nodwyd a fydd yn cynnwys targedau a throthwyon penodol i safleoedd. Mae angen i dargedau polisi heriol fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gymwys i'r mwyafrif o geisiadau.

### **Y Ddarpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr**

Nid yw'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr diweddaraf a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru yn rhan o'r sail dystiolaeth i lywio anghenion llety teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr.

Er mwyn nodi lefel yr angen a'r amserlenni ar gyfer cyflawni, mae'n rhaid paratoi Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd ar gyfer cyfnod cyfan y cynllun newydd (2018-2033). Nid yw'r astudiaeth bresennol yn gwneud hyn. Erbyn y cam Adneuo, mae'n rhaid paratoi Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ac mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gytuno arno, gyda darpariaeth ar gyfer dyraniadau safle priodol ac ymarferol er mwyn diwallu'r angen o fewn yr amserlenni gofynnol a nodwyd. **Bydd methu â nodi'r angen a dyrannu safleoedd yn y cynllun Adneuo er mwyn diwallu'r angen hwn yn debygol o arwain at ystyried nad yw'r cynllun yn 'gadarn'**. Mae'n rhaid i'r polisiâu yn y cynllun Adneuo fod yn glir ynghylch cyfanswm yr angen a'r math a'r amserlenni ar gyfer diwallu'r angen hwn hyd at 2033.

## Y Gymraeg

Mae gan y cynllun Weledigaeth ar gyfer 'iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig sy'n gryf' gyda 26% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, sef 2% yn llai nag yn 2001. Er mwyn gwyrddroi'r duedd hon ac ategu Gweledigaeth y cynllun, mae polisi iaith Gymraeg wedi cael ei gynnwys yn y Strategaeth a Ffeirir ond nid yw'n gosod trothwy nac yn nodi ardaloedd ieithyddol sensitif o ran y Gymraeg.

Dylai'r cynllun Adneuo wneud y canlynol:

- Esbonio sut mae'r Gymraeg, yn enwedig yn ne'r Sir, wedi dylanwadu ar raddfa a lleoliad y twf, gan gynnwys datblygiadau tai. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi cynnal profion ar effaith y 'strategaeth a ffeirir' ar y Gymraeg ond roedd y canlyniadau'n amhendant;
- Os yw hynny'n briodol, nodi ardaloedd ieithyddol sensitif o ran y Gymraeg y mae cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg a chynnwys gofyniad am Asesiadau o'r Effaith ar yr Iaith ar hap-safleoedd 'annisgwyl' yn unig.

## Ynni Adnewyddadwy

Mae'n siomedig iawn nad yw'r Strategaeth a Ffeirir yn cynnwys polisi penodol ar ynni adnewyddadwy nac yn esbonio sut y mae cyfleoedd am ddatgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy wedi dylanwadu ar y strategaeth. Mae'r FfDC yn nodi Ardaloedd Blaenoriaeth 3 a 15 a dylai'r cynllun adlewyrchu hynny.

Dylai'r cynllun Adneuo wneud y canlynol:

- Cael ei lywio gan Asesiad o Ynni Adnewyddadwy er mwyn sicrhau bod yr ardal yn cyfrannu at gynhyrchu cymaint o ynni adnewyddadwy â phosibl. Dylai'r Asesiad alluogi'r awdurdod i esbonio sut y datblygwyd ei ddull polisi ynni adnewyddadwy yn unol â PCC a dogfen Pecyn Cymorth ar gyfer Cynllunwyr Llywodraeth Cymru (2015) gan ystyried yr holl faterion perthnasol a, lle bo'n briodol, wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth lle mae'r Pecyn Cymorth yn hwyluso hyn;
- Dangos sut mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy wedi'i ymgorffori ym mhroses y safleoedd ymgeisiol ac esbonio sut mae cyfleoedd ynni adnewyddadwy a charbon isel wedi llywio graddfa a lleoliad y twf;
- Cynnwys cyfraniad ardal y cynllun at ddatblygu a hwyluso ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel yn y polisi ac fel rhan o'r fframwaith monitro;
- Cynnwys cyfleoedd ar gyfer cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel lleol yn y fframwaith polisi.

## Mwynau

Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (Adolygiad 1<sup>af</sup>) yn nodi diffyg o 2.2 filiwn o dunelli yn y ddarpariaeth o dywod a graean a 0.18 miliwn yn y ddarpariaeth o dunelli o gerrig mâl drwy gydol cyfnod y cynllun. Mae'n rhaid i'r awdurdod sicrhau y caiff unrhyw ofyniad a nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (sy'n cael ei adolygu am yr eildro ar hyn o bryd) ei ystyried yn y cynllun adneuo a'i ategu gan fframwaith polisi priodol.

## Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas

Tir amaethyddol graddau 1, 2 a 3a yw'r tir gorau a mwyaf amlbwrpas a dylid ei warchod. Nid yw'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (Tabl 21) yn gyson â'r polisi cenedlaethol yn hyn o beth gan yr ystyrir graddau 1 a 2 yn unig. Mae'n **rhaid i'r awdurdod sicrhau bod yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn asesu effaith y strategaeth ofodol, gan gynnwys datblygiadau preswyl arfaethedig, ar dir amaethyddol gradd 3a** yn unol â'r system Dosbarthiad Tir Amaethyddol.

Mae Safle Strategol Bodelwyddan yn cynnwys llawer o'r tir gorau a mwyaf amlbwrpas ac **ni fydd Llywodraeth Cymru yn derbyn colli rhagor o'r tir gorau a mwyaf amlbwrpas y tu allan i'r caniatâd amlinellol ar y Safle Strategol neu mewn aneddiadau eraill heb gyfiawnhad sylweddol a chymhwyso'r prawf dilyniannol yn PCC.** Fe'ch cynghorir i gysylltu â'n cydweithwyr yn Nhîm yr Amgylchedd wrth symud ymlaen i'r cam Adneuo.

\* \* \* \* \*